

Hysbysiad Preifatrwydd Prifysgol Manceinion (UoM)



Hysbysiad Preifatrwydd ar gyfer Cyfranogwyr Ymchwil

Ymchwil yn UoM

Mae Prifysgol Manceinion (Ni) yn cynnal ymchwil i'r safonau uchaf o gywirdeb ymchwil i sicrhau ei fod yn fuddiol ac yn cyfoethogi dysgu uwch. Fel y datganwyd yn ein [Siarter Prifysgol](#) mae ein canlyniadau ymchwil er budd y cyhoedd. Yn rhan o'n hymroddiad i gywirdeb ymchwil, rydym yn dilyn y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR), Deddf Diogelu Data 2018 (DPA) y Deyrnas Unedig, ac yn achos ymchwil iechyd a gofal, [Fframwaith Polisi'r Deyrnas Unedig ar gyfer Ymchwil Iechyd a Gofal Cymdeithasol](#).

Rydym yn addo parchu cyfrinachedd a sensitifrwydd yr wybodaeth bersonol y byddwch yn ei darparu i ni, a dderbyniwn gan sefydliadau eraill, ac y byddwn yn ei rhannu gyda sefydliadau eraill sy'n cydweithredu (megis Prifysgolion eraill neu gyllidwyr ein hymchwil). Byddwn yn rhoi gwybod i chi sut fyddwn ni'n defnyddio eich gwybodaeth, sut fyddwn ni'n ei chadw'n ddiogel a gyda phwy y byddwn yn ei rhannu. Rydym yn ymroi i gadw eich gwybodaeth bersonol yn ddiogel ac ni fyddwn yn ei defnyddio i gysylltu â chi ar gyfer unrhyw ddiben arall oni bai eich bod wedi cytuno i hyn.

Mae gan ymchwil statws arbennig dan GDPR. Diffinnir ymchwil a gyflawnwyd gan ein staff a myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig (y rhai sy'n astudio ar gyfer PhD neu Radd Meistr mewn Athroniaeth) fel rhywbeth sy'n gwneud cyfraniad unigryw i wybodaeth a gyhoeddir er mwyn rhannu'r wybodaeth honno.

Gall myfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig a addysgir (Meistri mewn Celfyddydau/Gwyddorau ac ati) hefyd gyflawni prosiectau ymchwil i gyflawni gofynion eu rhaglen astudio. Er nad yw'n fwriad i'r rhaglenni hyn wneud cyfraniad gwreiddiol i wybodaeth, nac ychwaith ydynt yn cael eu cyhoeddi fel arfer, maent yn allweddol i addysg y myfyrwr, ac felly'n cael eu cynnwys dan ein diffiniad o ymchwil.

Fel arfer ni yw'r Rheoliad Data ar gyfer astudiaethau ymchwil. Mae hyn yn golygu mai ni fydd yn penderfynu sut fydd eich gwybodaeth bersonol yn cael ei chreu, casglu, defnyddio, rhannu, archifo a dileu (prosesu). Pan fyddwn ni'n gwneud hyn, byddwn yn sicrhau ein bod yn casglu'r hyn sydd ei angen ar gyfer y prosiect yn unig, a'ch bod wedi cytuno i hyn. Os bydd unrhyw sefydliad arall yn gwneud penderfyniadau ynghylch eich gwybodaeth, bydd hyn yn cael ei esbonio yn y ddalen wybodaeth i gyfranogwyr a ddarparwyd i chi.

Os bydd mwy nag un sefydliad yn cydweithio ar brosiect, efallai y bydd yna ddau Reoliad Data neu fwy ar gyfer prosiect penodol. Os bydd hyn yn digwydd, bydd gan y sefydliadau gytundebau ar waith sy'n amlinellu eu cyfrifoldebau a byddwn yn egluro manylion hyn yn y Ddalen Wybodaeth i Gyfranogwyr, a ddarparwyd i chi.

Gwybodaeth amdanoch chi

Golyga 'data personol' unrhyw wybodaeth fyddai'n datgelu pwy ydych chi. Gall gynnwys gwybodaeth fel eich enw, rhyw, dyddiad geni, cyfeiriad/cod post neu wybodaeth arall fel eich barnau neu feddyliau. Gall hefyd gynnwys gwybodaeth sy'n ei gwneud yn bosibl i'ch adnabod, hyd yn oed os yw'ch enw wedi ei ddileu (megis dyfyniadau neu bostiadau ar gyfryngau cymdeithasol).

Dim ond gwybodaeth bersonol sy'n briodol ac angenrheidiol ar gyfer y prosiect ymchwil penodol sy'n cael ei gynnal y byddwn ni yn ei chasglu. Bydd yr wybodaeth benodol a gasglwn amdanoch yn cael ei rhestru yn y Ddalen wybodaeth i Gyfranogwyr, a dderbyniwch gan y tîm ymchwil.

Efallai y byddwn yn prosesu rhywfaint o wybodaeth amdanoch a ystyrir i fod yn 'sensitif' hefyd, ac fe elwir hyn yn ddata personol 'categori arbennig'. Mae hyn yn cynnwys, ond nid wedi ei gyfyngu i, gwybodaeth fel eich ethnigrwydd, cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth o ran rhyw, cred grefyddol, manylion am eich iechyd neu gollfarnau troseddol yn y gorffennol. Mae'r mathau yma o wybodaeth bersonol yn gofyn am fesurau diogelu atodol, yn arbennig o ran rhannu, ac mae'r Brifysgol yn sicrhau bod y rhain yn weithredol.

O dan GDPR rhaid i ni gael mesurau diogelu arbennig ar waith i helpu diogelu eich hawliau a rhyddidau wrth ddefnyddio eich gwybodaeth bersonol, sef:

- Polisiâu a gweithdrefnau sy'n dweud wrth ein staff a myfyrwyr sut i gasglu a defnyddio eich gwybodaeth yn ddiogel.
- Hyfforddiant sy'n sicrhau bod ein staff a myfyrwyr yn deall pwysigrwydd diogelu data a sut i ddiogelu eich data.
- Safonau diogelwch a mesurau technegol sy'n sicrhau bod eich gwybodaeth wedi ei storio'n ddiogel.
- Byddwn yn craffu ar bob prosiect ymchwil sy'n delio â data personol a bydd pwyllgor moeseg ymchwil yn eu cymeradwyo yn unol â pholisiâu a gweithdrefnau'r Brifysgol.
- Mae gan gontractau gyda chwmnïau neu unigolion nad ydynt yn gysylltiedig â'r Brifysgol gymalau cyfrinachedd sy'n sefydlu cyfrifoldebau pob parti ar gyfer diogelu eich gwybodaeth.
- Rydym yn cynnal asesiadau effaith diogelu data ar brosiectau risg uchel i sicrhau nad yw'n effeithio ar eich preifatrwydd hawliau fel unigolyn neu ryddidau.
- Os byddwn yn defnyddio cydweithredwyr tu allan i Ewrop, byddwn yn sicrhau bod ganddynt gyfreithiau diogelu data digonol neu eu bod yn rhan o gynlluniau preifatrwydd a diogelwch fel y darian breifatrwydd yn yr Unol Daleithiau.

Yn ogystal â'r mesurau diogelwch uchod gan y Brifysgol, mae'r GDPR a'r DPA hefyd yn gofyn i ni fodloni'r safonau canlynol wrth i ni gyflawni ymchwil gyda'ch gwybodaeth bersonol:

- (a) ni fydd yr ymchwil yn achosi niwed na gofid i rywun (e.e. niwed corfforol, colled ariannol neu boen seicolegol).
- (b) nid yw'r ymchwil yn cael ei gyflawni er mwyn gwneud neu benderfynu ar rywbeth parthed person unigol, oni bai bod y prosesu ar gyfer ymchwil feddygol wedi ei gymeradwyo gan bwyllgor moeseg ymchwil.

- (c) mae gan y Rheolydd Data fesurau diogelu technegol a sefydliadol ar waith (e.e. hyfforddiant priodol i staff a mesurau diogelwch).
- (d) os prosesir categori arbennig o ddata, rhaid i hyn fod yn amodol i brawf budd y cyhoedd pellach i sicrhau bod yr wybodaeth rhannol sensitif yma yn ofynnol i fodloni'r amcanion ymchwil.

Y Rhan Gyfreithiol

Mae cyfraith diogelu data yn gofyn i ni gael rheswm cyfreithiol dilys dros brosesu a defnyddio data personol amdanoch chi. Yn aml fe elwir hyn yn 'sail gyfreithiol'. Mae GDPR yn gofyn i ni fod yn agored gyda chi ynghylch y sail gyfreithiol rydym yn ddibynnol arni er mwyn prosesu gwybodaeth amdanoch chi.

Ar gyfer ymchwil y rheswm cyfreithiol yw *"Mae prosesu yn angenrheidiol ar gyfer perfformiad tasg a gyflawnir er lles y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol sydd yn nwylo'r rheolydd"* (Erthygl 6 y GDPR):

Ar gyfer gwybodaeth sensitif, y rheswm cyfreithiol yw: *"mae prosesu'n angenrheidiol: i ddibenion archifo er lles y cyhoedd, dibenion ymchwil gwyddonol neu hanesyddol neu i ddibenion ystadegol... a fydd yn gymesur i'r nod terfynol, parthed hanfod yr hawl i ddiogelu data ac i ddarparu ar gyfer mesurau addas a phenodol i ddiogelu hawliau sylfaenol a lles gwrthrych y data"*. (Erthygl 9 y GDPR).

Pan fydd ymchwil yn ymwneud â cholffarnau troseddol, rhestrir y rheswm cyfreithiol yn Atodlen 1 Deddf Diogelu Data 2018 sy'n gofyn am fesurau diogelu arbennig.

Ble mae angen i ni ddibynnu ar reswm cyfreithiol gwahanol, megis cydsyniad, bydd hyn yn cael ei restru yn y Ddalen Wybodaeth i Gyfranogwyr a roddir i chi. Mewn treialon clinigol neu astudiaethau meddygol, er enghraifft, gallwn ddefnyddio'r rheswm canlynol:

"Mae prosesu yn angenrheidiol i ddibenion meddyginiaeth ataliol neu alwedigaethol, ar gyfer asesu capasiti'r cyflogai i weithio, diagnosis meddygol, darparu gofal neu driniaeth iechyd neu gymdeithasol neu reoli systemau iechyd neu ofal cymdeithasol ar sail cyfraith Undeb neu Aelod Wladwriaeth neu'n unol â contract gyda gweithiwr iechyd proffesiynol ac yn destun i'r amodau a mesurau diogelwch".

Gallwn hefyd ddefnyddio eich gwybodaeth bersonol i ddibenion ymchwil atodol, megis dadansoddiad arall neu brosiectau yn y dyfodol gyda'r un pynciau ymchwil. Gelwir hyn yn ddefnydd neu ddiben eilaidd.

Os byddwn eisiau gwneud hyn, byddwn yn ei esbonio i chi yn y Ddalen Wybodaeth i Gyfranogwyr ac yn sicrhau na fydd eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio mewn modd a allai gael effaith uniongyrchol arnoch chi (fel niwed neu drallod) neu a fydd yn arwain at wneud penderfyniadau amdanoch chi.

Rhannu'ch gwybodaeth

Byddwn yn cadw'ch gwybodaeth bersonol yn gyfrinachol ar bob adeg ac fe ofynnir i ymchwilyr ddileu manylion hunaniaeth (dienwi), ffugenwi (dileu unrhyw wybodaeth a allai ddatgelu pwy ydych chi fel eich enw a'i amnewid gyda chod neu allwedd unigryw) neu ei dileu cyn gynted â phosibl. Fodd bynnag, mewn rhai achosion efallai na fydd yn bosibl dileu manylion hunaniaeth o'ch gwybodaeth gan eu bod yn angenrheidiol er mwyn cyflawni nodau'r ymchwil. Os felly, byddwch yn cael eich hysbysu am hyn yn y Ddalen Wybodaeth i Gyfranogwyr.

Bydd eich gwybodaeth bersonol yn ogystal ag unrhyw wybodaeth heb fanylion hunaniaeth yn cael ei rhannu gydag aelodau'r tîm ymchwil yn unig er mwyn cyflawni'r prosiect. Os byddant angen rhannu eich gwybodaeth gydag unrhyw un arall, yn cynnwys rhywun tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (sy'n cynnwys holl wledydd yr Undeb Ewropeaidd yn ogystal â Norwy, Gwlad yr Iâ a Liechtenstein), byddwch yn cael gwybod pwy ydynt a pham bod hyn yn y Ddalen Wybodaeth i Gyfranogwyr.

Byddwn hefyd weithiau'n defnyddio cynnyrch neu wasanaethau a ddarperir gan drydydd partion sy'n cyflawni tasg ar ein rhan, fel Dropbox for Business, a ddefnyddir i rannu data ymchwil. Mae'r trydydd partion hyn yn adnabyddedig fel proseswyr data a phan fyddwn ni'n eu defnyddio bydd gennym gytundebau ar waith i sicrhau y cedwir eich gwybodaeth yn ddiogel. Nid yw hyn yn golygu y gallant gael mynediad i'ch gwybodaeth, ond os byddant yn gwneud hyn bydd wedi ei amlinellu yn y Ddalen Wybodaeth i Gyfranogwyr. Fel Rheolydd Data, ni fydd yn gyfrifol ar bob adeg am gadw eich gwybodaeth yn ddiogel trwy gydol yr ymchwil.

Dim ond cyn belled ag sydd angen i gwblhau nodau'r ymchwil y byddwn yn cadw eich gwybodaeth bersonol. Fodd bynnag, fe gedwir rhywfaint o wybodaeth bersonol (yn cynnwys cofnodion wedi llofnodi o gydsyniad) am gyfnod isafswm sy'n ofynnol gan gyllidwyr allanol neu ein polisiâu a gweithdrefnau. Gallwch ddarllen manylion am ba hyd fyddwn ni'n cadw'r wybodaeth hon yn ein [hamserlen dargadw](#). Bydd y Ddalen Wybodaeth i Gyfranogwyr yn datgan am ba hyd fyddwn ni'n cadw'ch gwybodaeth bersonol ac i ba ddiben.

Ar gyfer rhai prosiectau ymchwil, bydd eich gwybodaeth heb fanylion hunaniaeth neu wedi ffugenwi yn cael ei chadw wedi i'r prosiect ddod i ben, a'i rhoi mewn storfa ddata/archif ar-lein i'w rhannu gydag ymchwilyr eraill neu i'w defnyddio mewn ymchwil yn y dyfodol. Os hoffai ymchwilyr wneud hyn gyda'ch gwybodaeth, byddwch yn cael gwybod am hyn yn y Ddalen Wybodaeth i Gyfranogwyr.

Wrth ddefnyddio storfeydd ymchwil, yn aml bydd gofyn i ymchwilyr lanlwytho eu data cefnogol neu sylfaenol a allai gynnwys manylion hunaniaeth neu fod yn sensitif. Mae gan y storfeydd reoliadau technegol yn weithredol i sicrhau mai dim ond unigolion awdurdodedig sy'n gallu cyrchu'r wybodaeth.

Eich hawliau

Yn ôl y gyfraith, mae gennych hawliau parthed yr wybodaeth bersonol sydd gennym amdanoch. Mae'r rhain yn cynnwys yr hawl i:

- ✓ Weld yr wybodaeth/dderbyn copi o'r wybodaeth;
- ✓ Cywiro unrhyw wybodaeth wallus;
- ✓ Gael dileu unrhyw wybodaeth;
- ✓ Gyfyngu neu godi pryderon ynghylch ein prosesu o'r wybodaeth; Symud eich gwybodaeth ("cludadwyedd").

Mae'r hawliau hyn yn berthnasol i'ch gwybodaeth cyn y bydd yn ddiennw yn unig, ac unwaith bydd hyn yn digwydd ni fydd modd i ni ddod o hyd i'ch gwybodaeth benodol mwyach. Weithiau mae'n bosibl y bydd eich hawliau'n gyfyngedig pe byddai'n atal neu oedi'r ymchwil. Os bydd hyn yn digwydd, byddwch yn cael gwybod a bydd gennych hawl i gwyno am hyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau o ran sut y defnyddir eich gwybodaeth bersonol, neu os hoffech chi arfer unrhyw hawliau, gweler [tudalennau gwe diogelu data'r Brifysgol](#). Os ydych chi angen cymorth pellach, cysylltwch â Swyddfa Diogelu Data'r Brifysgol, Alex Daybank (dataprotection@manchester.ac.uk) neu ysgrifennwch at:

The Data Protection
Officer
Information Governance Office, Christie
Building University of Manchester,
Oxford Road Manchester M13 9PL

Os nad ydych chi'n fodlon gyda'r modd mae'ch gwybodaeth yn cael ei thrin, neu gyda'r ymateb a dderbyniwyd gennym, mae gennych chi'r hawl i gyflwyno cwyn gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, SK9 5AF (<https://ico.org.uk/>).